LGBC3M/2002

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

CYFARFOD A GYNHALIWYD DDYDD MAWRTH 19eg MAWRTH AM 10.30AM YN NHŶ CARADOG, ST ANDREWS PLACE, CAERDYDD

Yn bresennol

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. Susan Smith (Cadeirydd)	Mr. Edward Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. John Davies (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. Steve Halsall
Mr. Dennis Roberts (Aelod)	Mr. Clive Chapman
	Mr. David Carr
	Gwestai
	Mr. Frank Cuthbert
	(LGM2, Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol)

1. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2002

1.1 **Cymeradwywyd** y rhain.

2. Materion yn codi

2.1 Siroedd a Gedwir

2.1.1 Cyhoeddwyd y cyfarwyddiadau ar gyfer yr arolwg o'r siroedd a gedwir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 11 Mawrth 2002. Cyhoeddwyd llythyrau cychwynnol yn hysbysu am yr arolwg ynghyd â chopi o'r llyfryn arweiniad ar 18 Mawrth 2002. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau yw 17 Mai 2002. Gosodwyd manylion yr arolwg a chopi o'r llyfryn ar wefan y Comisiwn hefyd.

2.2 Gwirio gwaith Cyfieithu

2.2.1 Yn dilyn y cytundeb y dylai Comisiynwyr sy'n gwirio gwaith cyfieithu gael tâl am hanner diwrnod, **cytunwyd** y dylai'r tâl hwn fod yn berthnasol ar gyfer pob darn o waith cyfieithu a gaiff ei wirio.

2.3 Ymweliadau Safle gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru – Clunderwen a Llandudoch.

2.3.1 Cynhaliodd y Cynulliad ymweliad safle yng Ngorllewin Cymru mewn perthynas â'r sylwadau a dderbyniodd ynghylch arolygon Clunderwen a Llandudoch. Aeth Mr. Halsall ar yr ymweliad gyda Swyddogion y Cynulliad.

2.3.2 Yn dilyn yr ymweliad, byddai'r Cynulliad nawr yn ystyried mân ddiwygiadau i'r cynigion dan sylw, gan ddechrau drafftio gorchmynion i weithredu'r argymhellion maes o law.

2.4 Arolwg o'r Ffiniau yn ardaloedd Cwmtwrch Uchaf ac Isaf

2.4.1 **Nodwyd** yr hysbyswyd yr Awdurdodau Unedol o'r bwriad i gynnal arolwg yn ardal Cwmtwrch Uchaf ac Isaf. Byddai'r arolwg yn cychwyn ym mis Ebrill 2002.

2.5 Arolwg o'r ffin yn ardal Cymuned Dyffryn Clydach

2.5.1 **Nodwyd** yr hysbyswyd y partïon dan sylw o'r bwriad i gynnal arolwg yn yr ardal hon. Byddai'r arolwg yn cychwyn maes o law.

2.6 Cyfarfodydd y Comisiwn yn y dyfodol

2.6.1 Ar ôl nodi'r dyddiadau na fyddai'n gyfleus trefnu cyfarfodydd y Comisiwn arnynt yn y cofnodion blaenorol, **nodwyd** nad oedd angen i'r Ysgrifenyddiaeth osgoi ail ddydd Iau bob mis bellach.

2.7 Drafftio cofnodion

2.7.1 **Nodwyd** pan oedd y cofnodion yn cael eu drafftio, y dylid cyfeirio at Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol yn unigol a'r Comisiwn yn lluosog.

3. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ardal Cymunedau Llangollen a Llandysilio – drafft o'r adroddiad ar y Cynigion Terfynol

3.1 Croesawodd y Comisiwn y drafft o'r adroddiad a'r cynigion terfynol mewn perthynas â'r arolwg o ran o'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Wrecsam, a oedd yn cynnwys sylwadau gan Gyfreithiwr y Trysorlys.

3.2 Yn dilyn rhai mân ddiwygiadau drafftio a awgrymwyd, **cytunwyd** y dylid mabwysiadu'r adroddiad a'i gyhoeddi ar unwaith.

3.3 Oherwydd cyfyngiadau o ran amser cynhyrchu, ni fyddai'r adroddiad dwyieithog llawn ei hun yn cael ei gyhoeddi tan ddechrau mis Ebrill 2002, byddai copi uniaith Saesneg o'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a'r Cymunedau, erbyn y dyddiad cau sef 31ain Mawrth 2002.

4. Adroddiad Cyllidebol Chwarterol – 3ydd Chwarter 2001/2

4.1 **Nodwyd** yr adroddiad cyllidebol chwarterol gan y cyfarfod.

5. Rhyddid a Chyfrifoldeb o fewn llywodraeth leol – Datganiad Polisi gan Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol

5.1 **Nodwyd yr adroddiad** gan y Comisiynwyr a manteisiwyd ar y cyfle i drafod rhai o'r pwyntiau ynddo gyda Mr. Cuthbert o'r Cynulliad a oedd yn siaradwr gwadd yn y cyfarfod hwn.

5.2 **Nodwyd** y gallai fod gan rai meysydd o'r ddogfen bolisi oblygiadau posibl ar gyfer baich gwaith hir dymor y Comisiwn, a **chytunwyd** y dylid cadw llygad ar y mater.

6. Llywodraeth Leol Effeithiol a Chyfleus – cyflwyniad gan Frank Cuthbert, Adran Moderneiddio Llywodraeth Leol 2, Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol

6.1 Derbyniodd y Comisiwn gyflwyniad ar lywodraeth leol effeithiol a chyfleus gan Mr. Cuthbert.

6.2 Esboniodd Mr. Cuthbert rôl Adran Moderneiddio Llywodraeth Leol y Cynulliad, a swyddogaeth ei Gangen ef, sef Moderneiddio Llywodraeth Leol 2, a'i chyfrifoldebau.

6.3 Hysbysodd Mr. Cuthbert y Comisiwn y disgwylir i'r Comisiwn Arolygu Trefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru gyhoeddi ei adroddiad ar 24 Mehefin 2002. Cytunwyd bod y gwaith gwerthfawr a wnaed gan y Comisiwn hwnnw yn debygol o effeithio ar waith y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn y dyfodol.

6.4 Yna croesawodd Mr. Cuthbert y cyfle i esbonio'r term "llywodraeth leol effeithiol a chyfleus" i'r Comisiynwyr a benodwyd yn ddiweddar, o ran ei ystyr i'r gwaith ac ystyriaethau'r Comisiwn.

6.5 Diolchodd y Cyfarfod i Mr. Cuthbert am egluro'r mater, ac am iddo gymryd amser o'i amserlen brysur i wneud hynny.

6.6 Dymunai'r Cadeirydd hefyd hysbysu Mr. Cuthbert y byddai'n ysgrifennu at Mrs. Hart pan fyddai adroddiad y Comisiwn ar yr arolwg o ran o'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Wrecsam wedi'i gyhoeddi i ddatgan y dymuniad a dderbyniodd mewn sylwadau yn y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd gan y Comisiwn yn Llangollen, y dylai'r Cynulliad ymdrin â'r mater ar unwaith.

6.7 Nodwyd y pwynt gan Mr. Cuthbert.

7. Unrhyw Fater Arall

7.1 Arolygon – Statws Presennol

7.1.1 **Nodwyd** y cyhoeddwyd yr adroddiad a'r cynigion terfynol ar gyfer Arolwg Casnewydd/Tor-faen ar 15 Mawrth 2002.

7.1.2 **Nodwyd** y gwnaed Gorchmynion mewn perthynas â'r arolygon o'r ffiniau rhwng: i. Casnewydd/Tor-faen (Tafarnaubach); ii. Castell Nedd Port Talbot/Abertawe (Heol Pontardawe); a iii. Rhondda Cynon Taf/Bro Morgannwg, ac y byddent yn dod i rym ar 6 Ebrill 2002.

7.1.3 **Nodwyd** y bwriedir gwneud Gorchmynion mewn perthynas â chynigion Trefniadau Etholiadol y Comisiwn sy'n weddill gan y Cynulliad erbyn Pasg 2002.

7.2 Dyddiadau Cyfarfodydd yn y Dyfodol

7.2.1 **Cytunwyd** y cynhelir cyfarfod nesaf y Comisiwn ar 29ain Ebrill 2002 gyda chyfarfodydd dilynol i gael eu cynnal ar 20fed Mai 2002 a 9fed Gorffennaf 2002. Bydd pob cyfarfod yn cychwyn am 10.30 am.

7.3 Cyfarfod Agored Blynyddol Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru

7.3.1 **Nodwyd** bod Cyngor Sir Penfro wedi cytuno'n garedig i'r Comisiwn ddefnyddio ei gyfleusterau ar 11eg Hydref 2002 ar gyfer ei Gyfarfod Agored Blynyddol, ac mae'r Comisiwn yn ddiolchgar iawn am hyn.

7.3.2 Cyflwynwyd agenda a fformat awgrymedig ar gyfer y cyfarfod i'r cyfarfod, a **chytunwyd** y dylai'r Comisiynwyr gael amser i ystyried yr awgrymiadau a thrafod y mater yn y cyfarfod nesaf.